**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

3 Hydref 2024

Annwyl Lywydd,

Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Medi 2024 yn gwahodd fy Mhwyllgor i amlinellu ei farn am yr amserlen, fel y’i cynigiwyd gan y Llywodraeth, ar gyfer craffu ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru).

Fel y mae eich llythyr yn nodi, mae’r Llywodraeth wedi cynnig cyfnod byrrach na’r arfer ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1: yn ôl yr amserlen enghreifftiol, mae cyfnod o wyth wythnos wedi’i gynnig, yn lle’r 12 wythnos arferol.

Gwnaethom ystyried papur y Llywodraeth a’r amserlen gysylltiedig yn ein cyfarfod ar 30 Medi 2024, a daethom i’r casgliad ei bod yn debygol iawn y byddai unrhyw beth llai na 12 wythnos yn annigonol inni allu cwblhau ein gwaith craffu yn effeithiol. Nodir ein rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod.

Byddai gofyn inni gwblhau ein gwaith craffu mewn llai na 12 wythnos yn cyfyngu ar yr amser fyddai gennym i gymryd tystiolaeth gan randdeiliaid, a byddai’n cyfyngu ar allu’r Pwyllgor i ystyried y dystiolaeth honno mewn sesiynau yn y dyfodol, gan gynnwys gyda’r Aelod sy’n gyfrifol am y Bil. Ar ben hynny, mae’r dyddiad cau arfaethedig ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 10 Ionawr 2025 - yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl toriad y Nadolig - yn golygu na fyddai gennym ond un cyfarfod i ystyried ein hadroddiad a chytuno arno.

Y Pwyllgor fydd yn gyfrifol am graffu ar y Bil, ond bydd hefyd yn rhanddeiliad allweddol o ran ei gynigion ar y trefniadau ar gyfer gwneud deddfwriaeth a'i chyhoeddi. Nid yw'r Llywodraeth – hyd y gwyddom ni – wedi cynnal ymgynghoriad ar y cynigion hyn gyda rhanddeiliaid perthnasol yn y Senedd nac yn fwy cyffredinol ychwaith. Credwn, felly, ei bod yn hanfodol inni gael cyfle i asesu'r darpariaethau perthnasol yn drylwyr, gan ddefnyddio cyngor arbenigol a safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol eraill yn ôl yr angen.

Yn ogystal, er bod y Llywodraeth yn nodi yn ei phapur mai un Bil Senedd arall yn unig y bydd y Pwyllgor yn ei ystyried yn ystod y cyfnod dan sylw, nid yw'n ystyried busnes arall sydd gennym sy'n sensitif o ran amser. Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio memoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â phum Bil Seneddol atom i'w hystyried, ac mae'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar yr holl femoranda hyn yn dod o fewn y cyfnod hwn. Byddwn hefyd yn cynnal ein gwaith craffu rheolaidd ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach, yn ogystal â chymryd tystiolaeth gan aelodau o'r Llywodraeth ar y materion eang o fewn ein cylch gwaith (sesiynau a ohiriwyd cyn toriad yr haf). Felly, yn ogystal ag effaith debygol y diffyg amser i graffu'n effeithiol ar y Bil, mae pennu amserlen fyrrach yn debygol o effeithio ar allu'r Pwyllgor i gyflawni ei fusnes hanfodol arall mewn modd amserol.

At hynny, ni chawsom rybudd cynnar gan y Llywodraeth – yn breifat nac yn gyhoeddus – o'i bwriad i gynnig cyflymu'r amserlen ar gyfer craffu ar y Bil. Gwnaeth y cyn-Gwnsler Cyffredinol ysgrifennu at y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2024 i gynnig briff technegol ar y Bil, ond nid oedd cyfeiriad yn y llythyr hwnnw at fater yr amserlen. Byddai rhybudd cynnar wedi rhoi cyfle inni geisio dygymod â chynnig y Llywodraeth, a threfnu ein blaenraglen waith yn unol â hynny.

Gall eich bod hefyd yn gwybod ei bod yn fwriad gan y Llywodraeth i'r Bil gael ei gyflwyno yn gynharach eleni. Mae'n aneglur i ni, felly, pam mae'n ymddangos bod y Llywodraeth yn argymell amserlen fyrrach ar gyfer gwaith craffu ar y Bil i'w alluogi i gwblhau ei hynt erbyn 1 Ebrill 2025, yn lle ceisio cyflawni'r un nod drwy gyflwyno'r Bil yn gynharach eleni yn ôl y bwriad. Felly, nid ydym yn credu y byddai'n briodol byrhau'r amserlen graffu safonol ar gyfer y Bil yn dilyn yr oedi o ran ei gyflwyno.

Nid ydym ychwaith yn ymwybodol o unrhyw frys i weithredu'r Bil a allai olygu bod angen cyflymu'r amserlen. Credwn, yn absenoldeb unrhyw resymau dros frys, y dylid bob amser ddarparu cyfnod safonol o 12 wythnos ar gyfer gwaith craffu er mwyn i bwyllgorau'r Senedd gynnal gwaith craffu Cyfnod 1, i alluogi asesiad llawn a chynhwysfawr o Fil ar ôl ystyried ystod eang o safbwyntiau ar ei gynigion.

Nodwn eich bwriad i ystyried yr amserlen yn unol â meini prawf penodedig ar gyfer gwneud penderfyniadau; rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth bellach yn yr Atodiad a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried y mater.

Rwy’n ddiolchgar i chi am ymgynghori â’r Pwyllgor, a byddaf yn disgwyl am benderfyniad y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

## Atodiad

### A ddarparwyd drafft o'r Bil?

Nid yw'r Pwyllgor wedi gweld drafft o'r Bil.

Yn ôl papur y Llywodraeth, mae dau brif ddiben i'r Bil.

Nid yw darpariaethau mewn perthynas â'r diben cyntaf – casglu at ei gilydd a ffurfioli'r trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Gymreig, a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth – wedi ymddangos ar ffurf drafft yn flaenorol. Hyd y gwyddom, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal ychwaith mewn perthynas â'r cynigion polisi sy'n sail i'r darpariaethau hyn.

Ar y llaw arall, mae darpariaethau mewn perthynas â'r ail ddiben – diddymu, diwygio ac fel arall ddatgymhwyso mewn perthynas â Chymru ddarpariaethau a deddfiadau nad ydynt bellach o ddefnydd na budd ymarferol – wedi ymddangos ar ffurf drafft yn flaenorol ac wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ba raddau y mae'r darpariaethau hyn wedi newid ers yr ymgynghoriad.

### Faint o fanylion sydd wedi'u darparu am y cynigion polisi a deddfwriaethol sydd i'w cynnwys ym mhapur yr amserlen? A yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau a allai fod yn ddadleuol?

Gan fod y rhain yn faterion cydgysylltiedig, rydym wedi eu hystyried gyda'n gilydd.

O ran y prif ddiben cyntaf (fel y nodir uchod), nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus yn flaenorol mewn perthynas â'r cynigion polisi sy'n sail i'r darpariaethau hyn. Mae'n anodd iawn llunio barn ynghylch a ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol. Diben ymgynghoriad cyhoeddus digon hir felly, a gynhelid gan y Pwyllgor fel rhan o'i waith craffu, fyddai caniatáu i randdeiliaid perthnasol asesu'r darpariaethau hyn yn llawn a dwyn unrhyw faterion i sylw'r Pwyllgor (er enghraifft, o ran rhinweddau, effaith a chymhlethdod).

O ran yr ail brif ddiben, nid yw papur y Llywodraeth yn rhoi llawer o fanylion ynghylch pa ddarpariaethau y cynigir ei diddymu, eu diwygio ac fel arall eu datgymhwyso mewn perthynas â Chymru, ac a fydd y rhain yn adlewyrchu'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol ar ffurf drafft.

Mae'r papur hefyd yn nodi nad yw'r darpariaethau perthnasol "bellach o ddefnydd na budd ymarferol"; fodd bynnag, yn absenoldeb rhagor o fanylion am y darpariaethau, mae'r datganiad hwn yn oddrychol. Felly, mae'n anodd llunio barn ynghylch ei gywirdeb, a chanfod a yw darpariaethau'r Bil yn debygol o fod o natur ddadleuol ac a fyddant yn ennyn sylw a sylwadau helaeth gan randdeiliaid.

Nid yw'n glir ychwaith faint o'r darpariaethau diddymu sy'n deillio o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith: byddai eglurder or' fath yn helpu i gadarnhau a ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol ai peidio.